# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 10 EBRILL 2017 am 2.00 y p'nawn | MONDAY, 10 APRIL, 2017 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G O Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter S. Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll. Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PHLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church);
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

4 **COFNODION CYFARFODYDD 13 MAWRTTH, 2017** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn -

- 13 Mawrth, 2017 (y bore)
- 13 Mawrth, 2017 (y prynhawn)

5 **ADRODDIAD CYNNYDD CYNLLUN GWELLA GWASANAETHAU PLANT** (Tudalennau 15 - 30)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro.

6 **PANEL SGRIWTINI CYLLID** (Tudalennau 31 - 36)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro ar sgôp a chylch gorchwyl y Panel Sgriwtini Cyllid.

7 **PANEL SGRIWTINI PLANT** (Tudalennau 37 - 42)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro ar sgôp a chylch gorchwyl y Panel Sgriwtini Plant.

8 **BLAEN RAGLEN WAITH AMLINELLOL Y PWYLLGOR 2017/18** (Tudalennau 43 - 46)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2017 (A.M.)

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Victor Hughes,<br>Llinos Medi Huws, R. Llewelyn Jones, Peter Rogers<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol)<br>Rheolwr Gweithrediadau Adnoddau Dynol (AR)<br>Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd) |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb fel y rhestrir nhw uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**3 DIWEDDARIADAU GAN Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod o'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar 8 Chwefror wedi iddo gael ei enwebu fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Bwrdd hwnnw. 'Roedd nifer o faterion wedi cael sylw, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Diogelu; y Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Diogelu Corfforaethol; y Polisi ar gyfer defnyddio ataliaeth gorfforol, argaeledd adnoddau hyfforddi ar gyfer y pedwar maes blaenoriaeth allweddol sy'n cynnwys y rhaglen Prevent, caethwasiaeth fodern, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin domestig, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen ar gyfer ymweliadau Laming. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y gall fod yn sicr bod swyddogion yn mynd i'r afael â materion diogelu allweddol a'u bod yn cael sylw o fewn yr

DRAFT

Awdurdod. Os bydd unrhyw Aelod yn dymuno codi materion penodol, yna byddai croeso iddo / iddi eu trafod gyda'r Cadeirydd neu gellid ystyried eu cynnwys o fewn y Rhaglen Waith ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

- Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi cyflwyno barn Sgriwtini am y cynigion terfynol ar gyfer Cyllideb 2017/18 i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2017.

## 4 COFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR 6 CHWEFROR, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar fore 6 Chwefror 2017 ac ar brynhawn 6 Chwefror, 2017 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar fore 6 Chwefror, 2017 -

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y sefyllfa o ran cyhoeddi a chyflwyno adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar reoli salwch / absenoldeb. Nododd y Pwyllgor ei fod wedi bod yn pwyso am i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ers peth amser gan ei fod yn un pwysig yng nghyd-destun y Pwyllgor hwn ac o ystyried y flaenoriaeth a roddir gan yr Awdurdod i gyfraddau salwch fel maes ar gyfer ei wella. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) nad oedd yr adroddiad wedi dod i law a bod y mater yn cael ei ddilyn i fyny gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn rheolaidd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar yr arbedion effeithlonrwydd o £490k o ran costau cynorthwywyr dysgu neu arbedion eraill yn y cyllidebau a ddirprwyir i ysgolion yn 2018/19. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod gan ysgolion yr hyblygrwydd i ganfod arbedion effeithlonrwydd o £490k drwy ddulliau eraill oni fyddai'r arbedion hyn am gael eu gwneud trwy ostwng costau cynorthwywyr dysgu.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar yr amseru o ran cynnwys y Gwasanaeth Anabledd Dysgu fel un o'r pynciau ar gyfer y sesiwn friffio fisol i'r Aelodau. Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad y rhaglennwyd y bydd y Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn cael ei ystyried mewn sesiwn friffio i Aelodau ar 21 Mawrth, 2017.

**CAM GWEITHREDU: Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) i fynd ar drywydd yr adroddiad rheoli salwch gyda Swyddfa Archwilio Cymru.**

## 5 MONITRO PERFFORMIAD - CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 3 2016/17

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol sy'n nodi sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac a gytunwyd rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ar ddiwedd Chwarter 3 2016/17.

Adroddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad ar y materion canlynol -

- Mewn perthynas â Rheoli Perfformiad, 'roedd llawer iawn o waith wedi'i wneud yn Chwarter 3 o ran gweithgarwch lliniaru. Adlewyrchir hyn yn y gwelliant a welir yn y sefyllfa, gyda mwyafrif y dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Fodd bynnag, mae 5 dangosydd yn tanberfformio ac yn dangos yn Ambr neu'n Goch yn erbyn eu targedau blynyddol; mae tri o'r rhain yn y Gwasanaethau Oedolion ac amlinellir nhw yn adran 2.1.3 o'r adroddiad; mae un dangosydd yn y Gwasanaethau Plant yn parhau i ddangos tanberfformiad o Chwarter 2 ac 'roedd y manylion i'w gweld yn adran 2.14. Mae un dangosydd newydd erbyn hyn yn dangos yn Ambr yn y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ac fe'i hamlinellir yn adran 2.1.5. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cydnabod bod y meysydd hyn yn tanberfformio ac yn sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i liniaru yn erbyn risgiau sy'n codi ac i wella perfformiad.
- Mewn perthynas â Rheoli Pobl, mae cyfraddau salwch y Cyngor ar ddiwedd Chwarter 3 yn dangos gwelliant sylweddol (7.21 o ddiwrnodau o salwch am bob swyddog amser llawn cyfatebol (ALLC) o gymharu â'r llynedd (8.4 o ddiwrnodau salwch). Os bydd y duedd a

DRAFT

welwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn parhau, sef cyfraddau salwch uwch yn Chwarteri 3 a 4 nag yn Chwarteri 1 a 2, mae hyn yn dangos y bydd y canlyniadau a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn yn cyfateb i golli 10.5 o ddiwrnodau ar gyfer pob swyddog amser llawn cyfatebol oherwydd salwch. Fodd bynnag, os bydd y perfformiad cryf yn Chwarter 3 yn cael ei gynnal yn Chwarter 4, yna mae'n debygol y cyrhaeddir y targed o 10 diwrnod. Bydd yr Awdurdod yn gofyn am arweiniad pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru o ran arferion da y mae wedi'u nodi mewn perthynas â rheoli lefelau salwch.
- Mae’r Gwasanaethau Plant wedi bod yn destun archwiliad gan AGGCC a bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a’r Panel Plant yn goruchwylio gweithrediad y Cynllun Gwella sy’n deillio o’r arolygiad er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed.
- Cynigir bod y prosesau o gasglu dangosyddion Addysg / Dysgu yn cael eu gwerthuso yn Chwarter 4 ac i mewn i’r flwyddyn ariannol newydd. Darparwyd cymorth ychwanegol fel bod modd gwneud hyn.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor y targedau a fethwyd mewn perthynas â thri dangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion a holodd a oedd capasiti staff yn ffactor yn y tanberfformiad. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad nad oedd y mesurau lliniaru yn dangos bod capasiti yn cael ei ystyried yn broblem, ac eithrio mewn perthynas â PM19 – cyfraddau oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn - lle mae diffyg capasiti yn y sector gofal cartref yn ei gyfanrwydd wedi cael effaith negyddol ar y DP. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro ei bod wedi cael gwybod gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fel a ganlyn -
    - Ll / 118B - Canran y gofalwyr oedolion a oedd wedi gofyn am asesiad neu adolygiad ac a oedd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth wedi gwella perfformiad yn y DP hwn yn Chwarter 3 ac mae’n hyderus y bydd yn cyrraedd y targed yn Chwarter 4. Bydd y 30 neu ragor o gleientiaid a nodwyd fel rhai a oedd angen asesiad neu adolygiad wedi cael eu hasesu neu eu hadolygu cyn diwedd Chwarter 4.
    - PM18 - Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol. Mae hwn yn ddangosydd newydd ar gyfer 2016/17 a gellir ystyried bod y targed yn un uchelgeisiol. Mae'r Gwasanaeth wedi nodi bod amseroedd ymchwilio gan asiantaethau partner yn cael effaith ar yr amserlenni a pherfformiad y dangosydd hwn. Mae'r mater hwn yn parhau i gael ei godi yn y cyfarfodydd grŵp strategol rhwng Gwynedd ac Ynys Môn ac er ei bod yn annhebygol y gellir cyrraedd y targed am y flwyddyn gwneir pob ymdrech i ddod mor agos â phosib iddo erbyn diwedd Ch4.
    - PM19 – Cyfraddau oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy’n 75 oed neu’n hŷn. Mae hwn yn ddangosydd newydd hefyd ac yn un uchelgeisiol. Mae cynllun trawsnewidiol ar waith i sicrhau mwy o gapasiti gofal cartref yn 2017.
- Nododd y Pwyllgor nad oedd y cynnydd yn y galw ac felly’r pwysau ar wasanaethau yn debygol o ysgafnhau yn y dyfodol rhagweladwy sy’n awgrymu y bydd yn fwyfwy anodd cwrdd â thargedau perfformiad heriol.
- Nododd y Pwyllgor yr argymhellir bod tanberfformiad ar ffurf dangosyddion coch neu ambr yn cael ei gydnabod a bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer gwella’r sefyllfa a’u bod yn cael eu cyflwyno i’r aelod portffolio perthnasol a’r bwrdd rheoli bob mis. Nododd y Pwyllgor bod diffyg eglurder o ran y trefniadau arfaethedig i adrodd ar faterion rheoli perfformiad, yn enwedig o ran diffinio’r rôl Sgriwtini a rôl y byrddau rheoli, yn ogystal â diffyg cyfeiriad at fewnbwn a rôl Sgriwtini mewn perthynas â sicrhau gwelliant parhaus. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro yr ysgogwyd trafodaeth rhwng Sgriwtini a’r Tîm Trawsnewid yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, a hynny gyda golwg ar sicrhau gwell aliniad rhwng gwaith y Byrddau Trawsnewid / Rheoli a’r Pwyllgor Sgriwtini. Adroddir ar ganlyniad y gwaith hwn yn y trefniadau sgriwtini newydd a weithredir ar gyfer y weinyddiaeth newydd ym mis Mai, 2017.

- Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â Rheolaeth Ariannol, fod gorwariant o fewn gwasanaethau unigol. Nododd y Pwyllgor ymhellach nad oes unrhyw fecanwaith ar ffurf targedau fel y gall y Pwyllgor Sgriwtini fonitro gwariant o fewn gwasanaethau unigol.
- Nododd y Pwyllgor nad oes unrhyw dargedau wedi'u pennu ar gyfer nifer o ddangosyddion perfformiad sy'n golygu bod bylchau yn y wybodaeth ar y Cerdyn Sgorio. Os yw’r DP yn un newydd, dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad ei fod yn annhebygol o gynnwys targed gan nad oes unrhyw berfformiad hanesyddol y gellir seilio targed arno.  Hefyd, mae rhai gweithgareddau, e.e. yr ymarfer Siopwr Dirgel yn digwydd ar adeg benodol yn ystod y flwyddyn, h.y. yn Chwarter 4. Fodd bynnag, gwneir ymdrech i lenwi'r Cerdyn Sgorio’n llawnach erbyn y chwarter nesaf.
- Holodd y Pwyllgor a oedd y targedau ar gyfer rhai dangosyddion e.e. DP 30 - nifer y bobl ifanc sy’n cymryd rhan mewn rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / allgymorth  - yn cael eu gosod ar lefel rhy isel. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod y targed ar gyfer y chwarter yn seiliedig ar berfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Mae Gwasanaethau’n cael eu herio i sicrhau bod targedau yn realistig ac yn gyraeddadwy. Yn achos DP 30 mae’r targed wedi ei ostwng i adlewyrchu lleihad yn y ddarpariaeth.
- Nododd y Pwyllgor mewn perthynas â DP LCS / 002b sy’n dangos yn Ambr - nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol – fod anallu'r system i gofnodi'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth (e.e. cwsmeriaid Debyd Uniongyrchol) yn golygu bod y ffigyrau cyfranogiad yn anghywir efallai a bod hynny wedyn yn arwain at ddata perfformiad a all fod yn gamarweiniol. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod y gwendid hwn yn cael sylw yn y mesur lliniaru fel y nodir ym mharagraff 2.2.5 yr adroddiad.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar berfformiad yr Awdurdod o ran cyfraddau casglu’r Dreth Gyngor o gymharu ag awdurdodau eraill. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 nad oedd gwahaniaeth mawr rhwng yr awdurdodau sy’n perfformio orau a'r awdurdodau sy'n perfformio waethaf o ran cyfraddau casglu mewn blwyddyn gydag Ynys Môn yn agos at y cyfartaledd er fod ei berfformiad o ran dyledion hŷn yn is na’r cyfartaledd.  Fodd bynnag, gallai'r Awdurdod wella ei gyfraddau o ran casglu dyledion amrywiol ac fe adolygwyd y prosesau i’r perwyl. Gall bod oedi gyda chasglu rhai dyledion hyd nes y bydd eiddo’r cleient wedi ei werthu e.e. taliadau am leoliadau gofal preswyl ac mae hynny’n effeithio ar ddata perfformiad.
- Ers cyflwyno'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol fel cyfrwng i fonitro a gwerthuso perfformiad, nododd y Pwyllgor fod perfformiad wedi gwella ar y cyfan. ‘Roedd y Pwyllgor yn arbennig yn croesawu'r gwelliant yn y lefelau absenoldeb salwch ac yn cydnabod ymrwymiad yr UDA a’r Adain Adnoddau Dynol, gyda chymorth y gwasanaethau, i fynd i'r afael â'r mater hwn. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod Dangosyddion Perfformiad a’r targedau cysylltiedig yn cael eu herio gan yr UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol; mae hyn wedi arwain at well dealltwriaeth o berfformiad y gwasanaethau a phwyslais, o ganlyniad, ar gyflawni targedau. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i werthuso perfformiad yn fwy cyfannol ac felly os yw lefelau salwch yn uchel neu os yw gwasanaethau’n gorwario, mae angen i Aelodau fedru treiddio i lawr i'r rhesymau sydd y tu ôl i’r data.

**Penderfynwyd -**

- **Yn amodol ar egluro’r rôl Sgriwtini a rôl y byrddau rheoli (fel y cyfeirir ato ym mharagraff 1.3.1 o'r adroddiad) o ran monitro perfformiad a sicrhau gwelliant parhaus, nodi a derbyn y meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn llwyddo i sicrhau gwelliannau ynddynt fel y nodir ym mharagraffau 1.3.1 i 1.3.5 yr adroddiad.**
- **Derbyn a nodi'r mesurau lliniaru a amlinellwyd yn yr adroddiad ac ar lafar mewn perthynas â’r meysydd a nodwyd fel rhai sy’n tanberfformio.**

**CAM GWEITHREDU: Rheolwr Sgriwtini Dros Dro i egluro, gyda'r Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, rolau priodol y Byrddau Rheoli a'r Pwyllgor Sgriwtini mewn perthynas â monitro perfformiad a gwelliant parhaus.**

**6 MONITRO'R GYLLIDEB – CYLLIDEB REFENIW CHWARTER 3 2016/17**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer trydydd chwarter 2016/17 ynghyd â'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 mai'r sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir yn Chwarter 3 ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £16k a bod hynny'n welliant sylweddol o gymharu â'r sefyllfa a ragwelwyd yn ystod chwarter 2. Fodd bynnag, rhagwelir gorwariant o £756k (0.70%) ar wasanaethau erbyn 31 Mawrth, 2017, gyda'r amrywiadau mwyaf arwyddocaol yn digwydd yng nghyllidebau'r Adran Dysgu Gydol Oes a'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Blant, lle rhagwelir gorwariant o £700k a £718k yn y drefn honno. Rhagwelir tanwariant ar gyllid cyfalaf o ganlyniad i gostau benthyca is gan fod yr Awdurdod wedi bod yn defnyddio arian dros ben ei hun yn hytrach na benthyca'n allanol ar y rhaglen gyfalaf. Hefyd, mae'r ffordd o rannu'r costau wedi ei diwygio fel bod y Cyfrif Refeniw Tai yn ysgwyddo cyfran uwch o daliadau llog gan leihau'r costau i Gronfa'r Cyngor. Mae'r newid hwn yn ceisio rhannu'r costau'n decach rhwng y Cyfrif Refeniw Tai a Chronfa'r Cyngor; nid yw'n cynyddu'r risg i'r Cynllun Busnes ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai sydd wedi'i baratoi ar y sail diwygiedig. Mae hyn wedi creu arbediad untro sydd wedi cyfrannu tuag at gyflawni cyllideb gytbwys yn 2016/17 ac fe'i cymerwyd i ystyriaeth wrth osod cyllideb 2017/8. Ni fydd y glustog hon ar gael yn 2017/18 ac felly gallai unrhyw orwariant gan wasanaethau yn ystod 2017/18 fod yn broblem. Er y gallai'r sefyllfa bresennol newid yn Chwarter 4 wrth i bwysau galwadau barhau yn y Gwasanaethau Plant ac yn sgil lleoliadau all-sirol arbenigol yn y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, oherwydd y bydd cyfnod y gaeaf a'r costau ychwanegol a all ddod yn ei sgil wedi pasio erbyn hynny, rhagwelir gorwariant bychan erbyn diwedd y flwyddyn a gellir defnyddio arian wrth gefn y Cyngor i'w gyllido.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor y gorwariant yn y Gwasanaethau Plant, yn arbennig felly mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal, yn ogystal â'r gorwariant yn y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes mewn perthynas â lleoliadau all-sirol arbenigol. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar strategaeth liniaru'r Awdurdod i ddelio â'r pwysau ar y gwasanaethau hyn, yn enwedig mewn cyd-destun lle mae cyllidebau awdurdodau lleol yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y pwysau ar y cyllidebau gwasanaeth hyn yn broblem genedlaethol. Mae canlyniadau eraill o fewn y gyllideb gyffredinol wedi bod yn ffafriol ac felly llwyddwyd i leihau effaith gorwariant y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, bydd y pwysau ar y ddau wasanaeth hyn yn parhau a gallai waethygu oni bai y gellir rheoli'r galw. I'r perwyl hwnnw, buddsoddir mwy mewn gwasanaethau ataliol e.e. Tîm Trothwy Gofal yn y Gwasanaethau Plant i ddarparu ymyrraeth gynnar os oes ei angen er mwyn rhwystro achosion rhag gwaethygu a dod i mewn i'r system gofal statudol lawn lle mae'r costau'n uchel. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y costau sy'n gysylltiedig â Phlant sy'n Derbyn Gofal wedi sefydlogi dros y 6 i 9 mis diwethaf. Mae'r prif fater yn ymwneud â nifer fach o achosion sy'n cynnwys pobl ifanc yn eu harddegau sydd wedi bod ar gyrion y system ofal, sef pobl ifanc y gallai cwrdd â'u hanghenion arwain yn hawdd at orwariant ac y gallai'r canlyniad fod wedi bod yn wahanol iddynt pe byddid wedi ymyrryd yn gynt.
- Nododd y Pwyllgor mai dim ond 80.9% o'r arbedion sydd wedi eu cyflawni neu y credir y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn a bod hynny'n awgrymu bod cyfraniad arbedion i sicrhau cyllideb gytbwys wedi'i oramcangyfrif. Holodd y Pwyllgor felly ai rhywbeth ffodus oedd cyflawni cyllideb gytbwys yn 2016/17 oherwydd bod ffactorau eraill wedi gweithio o blaid yr Awdurdod; holodd y Pwyllgor hefyd a oedd cyflawni cyllideb gytbwys yn 2016/17 yn ddangosydd dibynadwy ynddo'i

DRAFT

hun o ran pa mor wydn yw cyllideb 2017/18 o gofio'r galw a'r pwysau parhaus ar gyllidebau gwasanaeth, yn enwedig cyllideb y Gwasanaethau Plant a'r gyllideb ar gyfer lleoliadau all-sirol yn y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod gwasanaethau yn bennaf yn edrych ar y llinell waelod a'i bod yn anodd asesu sut y byddai sgriwtineiddio arbedion penodol yn gallu ychwanegu gwerth os yw gwasanaethau yn llwyddo i gydbwyso eu cyllidebau. Mae rhai ffactorau sydd y tu allan i reolaeth y gwasanaethau, e.e. grŵp o blant sydd angen lleoliadau addysgol all-sirol arbenigol yn dod i mewn i'r system yn Chwarter 3 gan achosi mater na allai'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes fod wedi ei ragweld na chynllunio ar ei gyfer. O safbwynt y Pwyllgor, dylai fedru cymryd sicrwydd o'r ffaith bod balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei gynnal ar lefel briodol a'i fod yn darparu hyblygrwydd a lliniariad mewn perthynas ag ymateb i bwysau cyllidebol.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod y gwasanaethau hefyd yn gweithio i fynd i'r afael â'r heriau ariannol parhaus drwy adolygu trothwyon a thrwy edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu a'u comisiynu a thrwy drawsnewid y ffordd y mae rhai gwasanaethau'n cael eu darparu. Yn achos Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, rhaid edrych ar y rhesymau dros gomisiynu lleoliadau all-sirol cost uchel er mwyn sefydlu a oes modd cwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol ac yn ddiogel mewn ffordd arall sy'n fwy effeithlon.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r perfformiad ariannol ar ddiwedd Chwarter 3 fel y nodwyd yn adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 7 MONITRO'R GYLLIDEB - CYLLIDEB GYFALAF CHWARTER 3 2016/17

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2016/17.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar y gwariant gwirioneddol hyd yma (£14m) yn erbyn cyllideb gyfalaf o £ 52.8m fel y nodir yn fanwl yn Nhabl 4.1 yr adroddiad. Cyfeiriodd y Swyddog at y prosiectau sydd â'r risgiau mwyaf sylweddol o ran cyllid Grant Cyfalaf fel y nodir yn adran 3.1.2 o'r adroddiad a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch eu statws cyfredol.

Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed hyd yma a'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn.

**Penderfynwyd nodi'r gwariant a'r derbyniadau hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH**

## 8 BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith ddiweddaraf y Pwyllgor hyd at Ebrill, 2017 er gwybodaeth a sylwadau.

Gan nad oedd ond un mater ar raglen y Pwyllgor yn Ebrill 2017 adroddodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro fod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi gofyn i'r Fforwm Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini ystyried eitemau i'w hystyried gan y Pwyllgor ym mis Ebrill.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Flaenraglen Waith ddiweddaraf.**

**CAM GWEITHREDU: Rheolwr Sgriwtini Dros Dro i gadarnhau a gynhelir cyfarfod ym mis Ebrill ai peidio yn dilyn cyfarfod Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini.**

*Wrth ddod â busnes y cyfarfod i ben, diolchodd y Cadeirydd, ar ran ei gyd-Aelodau, i'r holl Swyddogion a oedd wedi rhoi arweiniad a chymorth i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.*

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2017 (P.M.)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Peter Rogers |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Gwasanaethau Strategol (Plant) (LR)<br>Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jim Evans, R. Llewelyn Jones, Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Gwahoddedigion: Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd), Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Cynghorwyr John Griffith, Alun Mummery, Trefor Lloyd Hughes MBE, Bobbie Jones (Arolygydd Arweiniol AGGCC) Mr Marc Roberts (Arolygydd, AGGCC)<br><br>Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau), Pennaeth Dysgu, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

---

DRAFT

### 1 YMDDIHEURIADAU

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a restrwyd uchod.

### 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 3 AGGCC: ADRODDIAD AROLWG GWASANAETHAU PLANT TACHWEDD 2016 – CYNGOR SIR YNYS MÔN

3.1 Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor, adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar ganlyniadau'r arolygiad o'r gwasanaethau plant yng Nghyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016.

Croesawodd y Cadeirydd Ms Bobbie Jones, Arolygydd Arweiniol ar gyfer yr arolygiad a Mr Marc Roberts, aelod o dîm Arolygu Rhanbarthol AGGCC i'r cyfarfod ac fe'u gwahoddwyd i gyflwyno eu canfyddiadau yn deillio o'r arolygiad o Wasanaethau Plant yn y Cyngor.

Adroddodd Ms Bobbie Jones, yr Arolygydd Arweiniol, bod yr arolwg wedi'i gynnal fel rhan o raglen arolygu graidd AGGCC a'i fod yn canolbwyntio ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir ar gyfer plant sydd angen cymorth, gofal a chefnogaeth a/neu eu diogelu. Edrychodd y tîm arolygu'n ofalus ar wasanaethau ataliol yn cynnwys trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth; llwybr unigolion at y gwasanaethau gofal a chefnogaeth, ac yn benodol mynediad at y gwasanaethau ataliol a statudol a'r cyswllt rhwng y gwasanaethau hyn ac unrhyw faterion diogelu sy'n codi. Roedd yr arolygwyr hefyd yn gwerthuso sut oedd y Cyngor yn asesu ei berfformiad a pha wahaniaeth yr oedd yn ei wneud i'r unigolion yr oedd yn ceisio eu cynorthwyo, gofalu amdanynt a'u cefnogi a/neu eu diogelu. Edrychwyd hefyd ar sut oedd y Cyngor wedi

dechrau gweithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Er mai ansawdd y ddarpariaeth oedd prif ffocws yr arolygiad, edrychodd yr arolygwyr hefyd ar elfennau sy'n cefnogi'r ddarpariaeth yn cynnwys trefniadau'r Cyngor ar gyfer arwain, rheoli a llywodraethu'r gwasanaethau Plant.

**Methodoleg**

Cynhaliwyd y gwaith maes dros gyfnod o bythefnos yn ystod mis Tachwedd 2016; cynhaliwyd adolygiad achos; cyfweliadau â staff, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner, siaradwyd â phlant a'u teuluoedd lle bynnag roedd hynny'n bosib a gydag aelodau etholedig; arsylwyd ar ymarfer, cynhaliwyd arolwg staff, adolygwyd cwynion a chofnodion gwerthuso staff.

**Canfyddiadau – Mynediad a Diogelu**

**Meysydd oedd yn cael eu gwneud yn dda**

- Roedd trefniadau mynediad at y gwasanaethau wedi eu sefydlu ac yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Ni welodd yr arolygwyr unrhyw enghreifftiau lle'r oedd mater diogelu brys angen sylw neu lle'r oedd plentyn wedi ei roi mewn perygl.
- Derbyniodd plant a oedd yn amlwg mewn perygl sylw prydlon ac ymatebol
- Gwelwyd rhai enghreifftiau o ymarfer gwaith cymdeithasol da
- Roedd gweithwyr cymdeithasol yn gyson yn eu hymdrechion i wireddu dymuniadau a theimladau'r plant

**Meysydd ble cafodd gwendidau eu nodi**

- Nid oedd y gwasanaethau Ataliol a gwybodaeth, cyngor a chymorth wedi datblygu'n ddigonol
- Nodwyd bod nifer fawr o atgyfeiriadau yn ogystal ag atgyfeiriadau a oedd o ansawdd gwael
- Roedd trothwyon mynediad at wasanaethau'n anghyson, ac nid oeddent yn cael eu rhannu'n ddigonol â phartneriaid neu nid oedd ganddynt ddealltwriaeth ddigonol ohonynt
- Roedd diffyg capasiti staff
- Roedd ansawdd a phrydlondeb ymateb i ymholiadau diogelu plant yn anghyson
- Roedd oedi o ran gweithredu trafodaethau strategaeth neu ddiffyg ymwneud gan rai partneriaid
- Nid oedd asesiadau bob amser yn rhoi sylw i ddadansoddi risg
- Roedd amrediad y gwasanaethau a'r adnoddau yn annigonol
- Roedd arolygiaeth y rheolwyr o drefniadau mynediad yn annigonol

**Canfyddiadau – Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethu**

**Meysydd oedd yn cael eu gwneud yn dda**

- Roedd gweledigaeth glir ar gyfer gwella trefniadau diogelu a hybu gwasanaethau sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd i fod yn wydn ac i fyw bywyd annibynnol
- Roedd y gweithlu'n ymrwymedig i sicrhau canlyniadau da ar gyfer plant a theuluoedd
- Roedd lefel dda o gefnogaeth wleidyddol i Wasanaethau Plant
- Mae mwy o fuddsoddiad yn y Gwasanaethau Plant
- Diwylliant o gefnogaeth a dysgu
- Cydnabyddiaeth glir o'r heriau sy'n wynebu Gwasanaethau Plant
- Ymrwymiad i wella

**Meysydd ble cafodd gwendidau eu nodi**

- Nid yw'r cyfeiriad strategol ar gyfer y Gwasanaethau Plant wedi'i drosi i mewn i strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau a oedd wedi'i ddosbarthu i'r gweithlu neu ei rhannu â phartneriaid allweddol
- Nid oedd lleisiau plant a theuluoedd yn cael eu casglu'n ddigonol na'u defnyddio i lywio datblygiad y gwasanaeth
- Roedd dealltwriaeth annigonol o arferion a pherfformiad
- Ni ddefnyddiwyd trefniadau comisiynu yn effeithiol i hyrwyddo'r effaith fwyaf cadarnhaol ar ganlyniadau i blant a theuluoedd



DRAFT

- Roedd cyflymder newid a gwelliant yn araf
- Roedd rhwystrau o ran recriwtio a chadw gweithlu medrus, galluog, cymwys a phrofiadol
- Roedd trefniadau goruchwylio staff yn annigonol ac yn aml o ansawdd wael

Dywedodd yr Arolygydd Arweiniol nad oedd y tîm arolygu wedi cael yr argraff o gwbl bod diffyg ymrwymiad neu frwdfrydedd i wella ar ran y Cyngor; teimlai'r arolygwyr bod eu cyfraniadau'n cael eu croesawu ac roedd hyn yn rhoi gobaith iddynt y bydd y gwelliannau cychwynnol o fewn y Gwasanaethau Plant yn cael eu cynnal yn y tymor hir. Amlinellodd yr Arolygydd Arweiniol y camau gweithredu y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt ar unwaith a'r camau y dylid eu cymryd wedi hynny yn ystod y 12 i 18 mis nesaf. Mae'r blaenoriaethau sydd angen sylw ar unwaith yn cynnwys datblygu fframwaith cadarn ar gyfer gwasanaethau ataliol; cryfhau trefniadau gweithio aml-asiantaethol mewn perthynas â throthwyon a sicrhau ansawdd; sicrhau y rhoddir sylw prydlon i ymholiadau diogelu plant a bod asiantaethau partner yn rhan o'r broses, a datblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu er mwyn rhoi sylw i faterion recriwtio, cadw a goruchwylio staff. Y cam nesaf felly fyddai i'r Awdurdod gyhoeddi ei gynllun gwella mewn ymateb i'r arolygiad. Cadarnhaodd y byddai Mr Marc Roberts yn monitro cynnydd Cynllun Gwella'r Cyngor. Bydd AGGCC yn cynnal arolygiad pellach ymhen 12 i 18 mis.

Ystyriodd y Pwyllgor a'r Aelodau eraill a oedd yn bresennol y wybodaeth a gyflwynwyd drwy gyfrwng adroddiad ysgrifenedig AGGCC a'r cyflwyniad a roddwyd gan yr Arolygydd Arweiniol a chodwyd y materion a ganlyn -

- **Nododd y Pwyllgor bod adroddiad yr AGGCC yn cyfeirio at yr angen i sicrhau gwelliant sylweddol o fewn y Gwasanaethau Plant mewn cyfnod byr. Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael i AGGCC, gofynnodd y Pwyllgor pa mor gyraeddadwy yw hyn.**

  Dywedodd yr Arolygydd Arweiniol mai gweithredu'r argymhellion y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt yw'r allwedd i sicrhau gwelliant. Mae rheoli nifer yr atgyfeiriadau a sicrhau capasiti staff i wneud hynny yn hollbwysig. Mae gan y Cyngor yr adnoddau o ran sgiliau, gwybodaeth a brwdfrydedd i wella ac mae'n meddu ar weledigaeth o sut beth yw gwasanaeth da. Mae'r pryderon yn ymwneud â capasiti'r gweithlu i fedru gwneud newidiadau mor gyflym ag sydd eu hangen. Y cyngor fyddai i flaenoriaethu'n glir yr hyn sydd ar hyn o bryd yn Gynllun Gwella sylweddol ac i sicrhau hefyd fod iddo ffocws sy'n edrych allan, sy'n golygu ymgysylltu â sefydliadau partner a'u dal i gyfrif am ddarparu'r hyn y maent yn gyfrifol am ei ddarparu. Pan fydd y Gwasanaethau Plant yn cael eu harolygu eto ymhen 12 i 18 mis, byddai AGGCC yn disgwyl gweld cynnydd digonol i roi sicrwydd bod modd cyflawni gwelliant parhaus.

- **Nododd y Pwyllgor bod AGGCC yn bwriadu ailymweld â'r Awdurdod ymhen 12 i 18 mis. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn ag a fyddai hynny'n golygu arolwg ac adroddiad llawn ynteu a fyddai'r arolwg yn canolbwyntio ar agweddau penodol o'r gwasanaeth. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad hefyd ynglŷn â sut mae AGGCC yn bwriadu monitro Cynllun Gwella'r Awdurdod.**

  Dywedodd yr Arolygydd Arweiniol y bydd ffurf yr ailymweliad yn dibynnu ar gyflymder y cynnydd a wneir, a bydd Marc Roberts yn asesu hyn drwy adolygiad perfformiad parhaus, monitro a phroses ymgysylltu. Nid yw'r AGGCC yn bwriadu ailymweld mewn llai na 12 mis oni bai bod Mr Marc Roberts yn adnabod agwedd o ymarfer sydd angen ei harchwilio; yn yr achos hwnnw cynhelir arolwg byr â ffocws pendant iddo, a chyhoeddir adroddiad. Barn yr Arolygwyr yw bod rhaid rhoi amser i'r Cyngor weithredu ei Gynllun Gwella heb darfu ar hynny drwy gynnal arolygiad yn rhy gynnar.

- **Nododd y Pwyllgor bod adroddiad y Rheoleiddwyr yn cyfeirio at wendidau oddi fewn i sefydliadau partner; mae'r gwendidau hyn yn cael effaith sylweddol ar allu'r Gwasanaeth i berfformio'n well. Gofynnodd y Pwyllgor a yw AGGCC yn bwriadu trafod y gwendidau hyn yn uniongyrchol â'r partneriaid.**

  Cadarnhaodd yr Arolygydd Arweiniol bod y canfyddiadau mewn perthynas ag asiantaethau partner wedi eu trafod, ac y byddant yn cael eu trafod yn uniongyrchol â'r sefydliadau perthnasol. Mae'r gwendidau a nodwyd yn wendidau aml-asiantaethol. Er mai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r asiantaeth arweiniol mewn perthynas â darparu gwasanaethau plant, ac yn

DRAFT

arbennig trefniadau amddiffyn plant a diogelu, maent serch hynny yn gyfrifoldebau aml-asiantaethol. Mae'n bwysig felly bod yr holl sefydliadau partner eraill yn cyfrannu ac mae angen sicrhau bod pob un ohonynt yn atebol i'w gilydd am eu hymarfer. Mae trefniadau mewn lle drwy'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol i helpu i wella'r trefniadau partneriaeth hynny. Gall y Cyngor, Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oll wneud gwelliannau mewn perthynas â darparu gwasanaethau ar gyfer plant yn Ynys Môn.

- **Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r Arolygiaeth o'r farn fod y Cynllun Gwella yn rhoi sylw i berthynas â phartneriaid a threfniadau cydweithio, yn arbennig gyda'r Heddlu.**

  Dywedodd yr Arolygydd Arweiniol ei bod yn annhebygol y bydd nifer yr atgyfeiriadau gan yr Heddlu'n lleihau yn ystod y 12 mis nesaf. Gan nad oes modd rhagweld pa mor gyflym y gellir gwneud gwelliannau aml-asiantaethol, mae angen i'r Cynllun Gwella edrych ar ba fath o drefniant blaenoriaethu y gellir ei sefydlu o fewn y Tîm Mynediad Dyletswydd i reoli nifer yr atgyfeiriadau mewn modd sy'n canolbwyntio ar risg. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor bod trafodaethau cadarnhaol wedi eu cynnal â Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda'r bwriad o gydweithio ar lefel strategol. Mae partneriaid wedi ymrwymo i gydweithio'n agosach er mwyn gwella prosesau ac arferion.

- **Nododd y Pwyllgor, er bod adroddiad AGGCC yn cyfeirio at lefel dda o gefnogaeth wleidyddol i gyfeiriad strategol y Cyngor ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac i waith cadarnhaol panel trawsbleidiol o Aelodau, mae'n argymell hefyd bod angen cryfhau gallu Aelodau Etholedig i herio perfformiad drwy ddarparu gwell gwybodaeth iddynt am ansawdd y gwasanaethau a phrofiad y plant a'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr Arolygiaeth wedi gweld arfer dda mewn awdurdodau eraill mewn perthynas â rheoli perfformiad Gwasanaethau Plant gan Aelodau Etholedig.**

  Dywedodd yr Arolygydd Arweiniol y byddai'n fuddiol i Sgriwtini dderbyn gwybodaeth am drefniadau mynediad ac am faterion eraill yn ymwneud â rheoli nifer yr atgyfeiriadau. Byddai trafod gydag awdurdodau eraill sydd mewn sefyllfa debyg yn ddefnyddiol hefyd. Mae Aelodau Etholedig angen gwybod am y stori tu ôl i'r data.

- **Nododd y Pwyllgor bod yr arolwg wedi gwerthuso beth oedd yr awdurdod lleol yn ei wybod am ei berfformiad ei hun a pha wahaniaeth mae'n wneud i'r unigolion mae'n ceisio eu helpu, gofalu amdanynt a'u cefnogi a/neu eu diogelu. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd gan yr Arolygiaeth unrhyw gynlluniau i gynnal arolygiadau pellach o wasanaethau plant yn ystod y 24 mis nesaf.**

  Dywedodd yr Arolygydd Arweiniol bod y fframwaith arolygu presennol yn awgrymu y byddai ffocws gwahanol i'r cylch nesaf o arolygiadau; fodd bynnag mae angen cadarnhau hynny yn dilyn canlyniad adolygiad o'r fframwaith arolygu.

- **Cadarnhaodd yr Arolygwyr bod Gwasanaeth Plant Ynys Môn wedi eu harolygu ddiwethaf yn 2012 a'u bod yn rhan o adolygiad thematig ehangach yn 2014. Roedd casgliadau'r arolygiad olaf yn fwy cadarnhaol nag arolygiad 2012 ac o'r herwydd lluniwyd cynllun gwella llai sylweddol. Gan nodi'r wybodaeth honno, gofynnodd y Pwyllgor pam fod yr arolygiad diweddaraf yn 2016 mor siomedig.**

  Dywedodd Mr Marc Roberts bod Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn wedi profi cyfnod o welliant a dilynwyd hynny gan gyfnod bregus y cyfeiriwyd ato yn adroddiad Arfarniad Perfformiad 2014/15 yr Arolygiaeth. Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y sefyllfa bresennol.

3.2 Cyflwynwyd er ystyriaeth gan y Panel, Adroddiad y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant yn ymgorffori Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr Awdurdod yn croesawu'r gwaith a wnaethpwyd gan AGGCC ac yn derbyn canfyddiadau'r Arolygiaeth yn llawn. Adroddodd bod y Gwasanaethau Plant, yn ystod y misoedd diwethaf, wedi bod yn gweithio ar Gynllun Gwella Gwasanaeth diwygiedig er mwyn ymateb i ofynion adroddiad arolygiad AGGCC. Amlinellir prif flaenoriaethau'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn adran 5.2 yr adroddiad; mae'r rhain yn



DRAFT

canolbwyntio ar feysydd sydd angen eu gwella'n sylweddol yn ystod y 12 i 18 mis nesaf. Mae AGGCC wedi croesawu'r ymrwymiad i wella a fynegwyd gan Uwch Swyddogion a chynrychiolwyr y Cyngor a'u hagwedd adeiladol tuag at yr arolygiad. Ymgynghorwyd â staff y Gwasanaethau Plant ac maent yn ymwybodol o'r gwaith sydd angen ei wneud. Mae partneriaid allweddol yn cytuno â'r angen i gryfhau cynlluniau gweithredu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n effeithiol. Mae gwaith wedi dechrau'n barod ar nifer o feysydd allweddol. Bydd Monitro Cynnydd a gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn digwydd drwy'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau'r Panel a drwy gyfarfodydd rheolaidd â'r AGGCC.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ynghyd â'r Cynllun Gwella a gofynnodd am sicrwydd mewn perthynas â'r materion canlynol -

- **Nododd y Pwyllgor bod adroddiad AGGCC yn gosod amserlen heriol i gyflawni gwelliannau sylweddol yn y gwasanaethau plant. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y gwasanaeth yn hyderus y byddai'n gallu cyflawni gwelliannau cynaliadwy yn ystod y 12 i 18 mis nesaf.**

  Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Rhaglen Wella yn un heriol; fodd bynnag, bydd y camau gweithredu hynny y bernir eu bod yn hanfodol yn cael eu blaenoriaethu. Dywedodd y Swyddog ei bod yn hyderus y byddai'r Gwasanaethau Plant mewn gwell sefyllfa mewn blwyddyn o gymharu â'r sefyllfa ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i wneud y gwelliannau sydd eu hangen ac wedi rhoi rhaglen glir yn ei lle er mwyn cyflawni ei amcanion. Nod yr Awdurdod yw cyflenwi gwasanaethau da a chadarn ar gyfer plant yn Ynys Môn; hefyd mae'n ceisio gwneud newidiadau sy'n gynaliadwy ac i barhau i wella i'r dyfodol tu, hwnt i'r amserlen a bennwyd yn adroddiad AGGCC.

- **Nododd y Pwyllgor bod adroddiad arolygiad AGGCC yn amlygu materion capasiti. Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r gwasanaeth yn gallu rhoi sicrwydd y bydd yn gallu cael mynediad at staff ac adnoddau eraill digonol er mwyn gwireddu rhaglen wella sylweddol y Gwasanaethau Plant.**

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Strategol (Plant) fod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar 3 neu 4 maes allweddol. Mae'n ceisio datblygu model sy'n rhoi mwy o bwyslais ar yr agenda ataliol; dyma fydd ffocws un o'r swyddi Rheolwr Gwasanaeth a bydd yn derbyn cefnogaeth gan staff fydd yn gyfrifol am ganolbwyntio ar y grŵp hynny o blant y byddai'n rhaid o bosib eu huwchgyfeirio drwy'r system oni bai bod eu hanghenion yn derbyn sylw buan. Mae'n rhaid anelu ymyrraeth gynnar at yr unigolion cywir a gwneud hynny yn gynt. Yn ail, mae angen datblygu strategaeth gweithlu sy'n rhoi sylw i faterion yn ymwneud â recriwtio, cadw a datblygu staff. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig ailstrwythuro o ran y modd y mae goruchwyliaeth yn cael ei gyflwyno a gwella cymhareb goruchwylwyr a gweithwyr achos; yn y gorffennol mae goruchwylwyr wedi bod yn gyfrifol am ormod o weithwyr achos. O'r herwydd bwriedir symud at fodel o grwpiau ymarfer llai gyda mwy o ffocws ar ymarfer proffesiynol yn hytrach nag ar reoli gweithgaredd. Ymgynghorwyd â staff ynghylch y newidiadau a'r cam nesaf fydd eu gweithredu.

- **Nododd y Pwyllgor bod angen blaenoriaethu'n briodol unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ymateb i'r rhaglen wella. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol sut mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu gwneud hynny, a hefyd sut mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu sicrhau bod gwella gwasanaethau plant yn flaenoriaeth lefel uchel.**

  Dywedodd yr Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Pwyllgor Gwaith wedi llwyddo i ymateb drwy wneud buddsoddiad priodol ac ystyriol bob tro yr oedd y Gwasanaethau Plant angen cyllid ychwanegol er mwyn cwrdd â, ac i reoli, galw ychwanegol. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn parhau i ymateb yn y modd hwn.

- **Nododd y Pwyllgor fod adroddiad yr AGGCC yn ddogfen arwyddocaol. O'r herwydd gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth fonitro gadarn a rheolaidd i'r Pwyllgor er mwyn ei alluogi i graffu'n effeithiol ar gynnydd.**

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y panel trawsbleidiol o aelodau wedi gweithio'n dda hyd yma. Mae angen ffurfioli'r trefniant hwn yn awr fel bod y panel yn derbyn statws is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini gyda chyfrifoldeb am fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gwella. Mae angen datblygu a chytuno ar raglen waith ar gyfer yr is-banel sy'n gosod gweithgaredd arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda'r nod o ganolbwyntio ar elfennau penodol o'r gwaith; bydd hyn yn galluogi'r is-banel i archwilio meysydd yn fwy manwl a thrylwyr. Er mai mater i'r Pwyllgor Sgriwitni a'r is-banel fydd penderfynu sut fydd y berthynas rhwng y ddau'n gweithio, ystyrir y dylai'r is-banel gyflwyno adroddiadau cryno ond rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini ar y cynnydd a wneir.

- **Nododd y Pwyllgor bod rhaid iddo dderbyn yr wybodaeth gywir er mwyn cryfhau ei ddealltwriaeth a'i allu i herio perfformiad gwasanaeth. Gofynnodd y Pwyllgor pa drefniadau fyddai Gwasanaethau Plant yn eu cyflwyno i wella ansawdd a dadansoddiad data perfformiad a gwybodaeth berthnasol arall. Yn ogystal gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn â sut mae'r gwasanaeth yn bwriadu gwella'r wybodaeth sydd ar gael iddo o ran ansawdd y gwasanaeth a phrofiad yr unigolion sy'n derbyn cefnogaeth.**

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno Fframwaith Perfformiad newydd sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddata ansoddol. Mae beth fydd hynny'n ei olygu'n cael ei ystyried ar lefel genedlaethol. Mae angen rhoi mwy o sylw i wrando ar lais y defnyddwyr gwasanaeth ac mae Comisiynydd Plant Cymru'n cefnogi hynny. Mae angen gwell dealltwriaeth hefyd o'r hyn y mae'r data'n ei ddangos ac i'r pwrpas hwnnw bydd Uned Asesu Ansawdd y Gwasanaeth yn cael ei chryfhau er mwyn canolbwyntio mwy ar adroddiadau thematig ac adnabod y tueddiadau a'r negeseuon tu ôl ystadegau. Mae angen gwneud gwaith i ddatblygu a gwella'r system er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae her hefyd o ran ceisio cael gafael ar farn ac adborth defnyddwyr gwasanaeth nad ydynt bob amser eisiau ymgysylltu â'r Awdurdod.

Wedi ystyried yr wybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar a gyflwynwyd gan Arolygwyr AGGCC ac ymateb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant, daeth y Pwyllgor i'r canlyniadau canlynol -

**Penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell -**

- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn ymateb y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant fel sail ar gyfer gwneud gwelliannau sylweddol yn y Gwasanaethau Plant yn ystod y 12 – 18 mis nesaf.**
- **Fel rhan o raglen wella Sgriwtini'r Awdurdod, bod rhaglen hyfforddiant a datblygu'n cael sefydlu o fis Mai 2017 i roi cefnogaeth lawn i Aelodau i'w galluogi i fonitro a chraffu ar gynnydd a faint o welliant sydd wedi digwydd. Y cynllun hefyd i gynnwys hyfforddiant ar fonitro perfformiad y Gwasanaethau Plant ac yn arbennig ansawdd y gwasanaethau a phrofiad yr unigolion sy'n derbyn y gefnogaeth a/neu'r gwasanaethau.**
- **Datblygu ymhellach gylch gorchwyl a rôl y panel trawsbleidiol presennol o aelodau fel is-banel i'r Pwyllgor hwn i fonitro a chraffu ar gynnydd a faint o welliant sydd wedi digwydd mewn perthynas â'r cynllun gwella gwasanaeth. Y ffrwd waith hon i gynnwys meincnodi yn erbyn safle arfer orau.**
- **Bod monitro cynnydd y Gwasanaethau Plant yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael, fel mater o flaenoriaeth, ar gyfer gweithredu'r rhaglen wella.**

## 4 PERFFORMIAD Y GWASANAETHAU PLANT

Cyflwynwyd er ystyriaeth gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant ar Berfformiad y Gwasanaethau Plant. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad y gwasanaeth yn erbyn y dangosyddion penodol canlynol -

- SCC/025 – Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gwblhawyd yn unol â’r rheoliadau.
- PM24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol (42 diwrnod gwaith).
- PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ac sydd wedi newid ysgol o leiaf unwaith mewn cyfnod neu gyfnodau pan oeddent yn derbyn gofal, ac eithrio oherwydd trefniadau trosiannol, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth.
- PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn.

Nododd y Pwyllgor ei fod wedi gofyn am adroddiad ar berfformiad y Gwasanaethau Plant wedi iddo ystyried y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2016/17. Er iddo dderbyn y mesurau lliniaru a gyflwynwyd ar y pryd, ac na ofynnwyd i Swyddogion roi esboniad am y perfformiad gan yr ystyrid bod Ch1 yn rhy gynnar yn y flwyddyn i wneud hynny, roedd y Pwyllgor wedi adnabod y Gwasanaethau Plant fel maes oedd angen ei fonitro’n ofalus. O’r herwydd roedd y Pwyllgor wedi gwahodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant i gyflwyno adroddiad erbyn diwedd y cyfnod adrodd ar gyfer Chwarter 2. Fodd bynnag, gohiriwyd yr adroddiad oherwydd yr arolygiad o’r Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd gan AGGCC ym mis Tachwedd 2016.

Ymhelaethodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant ar berfformiad y gwasanaeth yn erbyn pob un o’r pedwar dangosydd gan dynnu sylw at y rhai sy’n cwrdd â’r targedau ar hyn o bryd (PM32 a PM33); y rhai lle rhagwelir na chyrhaeddir y targed (SCC/025 a PM24) ac adroddodd ar y ffactorau sy’n effeithio ar berfformiad a’r camau sy’n cael eu cymryd i adfer y sefyllfa.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor bod gostyngiad amlwg yn y perfformiad yn erbyn Dangosydd PM24 o 100% yn Ch1 i 81.62% yn Ch3 a gofynnodd am esboniad dros y cwymp. Dywedodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant fod materion yn ymwneud â’r gweithlu, yn arbennig trosiant staff uchel, yn ffactorau sy’n dylanwadu ar y tanberfformiad yn erbyn y dangosydd hwn. Ar hyn o bryd mae 5 swydd Gweithiwr Cymdeithasol yn wag gyda staff asiantaeth yn llenwi’r bwlch. Mae recriwtio staff sydd â phrofiad addas yn parhau i fod yn her. Derbyniodd y gwasanaeth yr hawl i recriwtio staff ychwanegol ar sail dros dro ond collwyd yr aelod staff i swydd barhaol. Mae hyn wedi cael effaith ar berfformiad yn ystod chwater tri. Mae’n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn gallu recriwtio staff profiadol ar sail dros dro; mae modd llenwi’r bwlch drwy gyflogi staff asiantaeth neu gomisiynu gwaith penodol ar sail ymgynghoriaeth.
- Nododd y Pwyllgor y byddai wedi disgwyl gweld gwelliant mewn perfformiad yn erbyn yr holl ddangosyddion erbyn Chwarter 3, neu o leiaf bod perfformiad yn aros yn gyson ar lefelau Chwarter 1. Nododd y Pwyllgor ei siom nad dyma oedd yr achos a bod y data’n dangos bod y sefyllfa’n gwaethygu mewn perthynas â dau o’r dangosyddion. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â dangosydd SCC/025 fod data Chwarter 4 yn debygol o ddangos tueddiad tuag at i lawr yn y perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn. Esboniodd, mewn rhai achosion, bod yr ymweliad statudol wedi digwydd ond nad yw’r cofnodion ffurfiol wedi eu cwblhau sy’n golygu ei fod yn cael ei gofnodi fel achos hwyr; efallai bod ymgais wedi ei wneud i gynnal ymweliad ond nad yw’r ymweliad wedi ei gynnal yn y modd a gymeradwyir. Mae angen i staff ddeall yn well bod arferion gweithio a’r ffordd mae rhai agweddau o’r gwaith yn cael ei wneud yn cael effaith ar y dangosyddion perfformiad.
- Nododd y Pwyllgor y cafodd materion yn ymwneud â’r gweithlu, ac yn benodol capasiti staff, eu nodi fel rhesymau dros danberfformiad pan heriwyd perfformiad y Gwasanaethau Plant yn erbyn y dangosydd SCC/025 y llynedd. Yn ychwanegol, nododd y Pwyllgor ei fod wedi dangos cydymdeimlad tuag at yr heriau sy’n wynebu’r gwasanaeth yn y cyswllt hwn ond ei fod yn awr yn pryderu am y rhagolygon ar gyfer gwella’r dangosydd hwn. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Dangosyddion Perfformiad yn canolbwyntio ar agweddau penodol o berfformiad ac nad ydynt yn adlewyrchu ystod y ddarpariaeth. Nid oes dangosyddion perfformiad ffurfiol ar gyfer rhai agweddau o’r gwasanaeth felly ni adroddir o reidrwydd ar welliannau ac arfer dda o fewn y fframwaith

DRAFT

perfformiad ffurfiol. Yn ogystal, prif nod y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yw amlygu meysydd sy'n tanberfformio; unwaith mae'r meysydd hynny'n gwella ac yn cyrraedd y targed mae dangosyddion newydd yn cymryd eu lle ar y Cerdyn Sgorio.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r adroddiad.**
- **Cyfeirio'r mater i'r Panel Plant er mwyn iddo benderfynu'r math o ddata sydd angen ei gyflwyno, gan roi sylw penodol i ansawdd y gwasanaethau a llais y plant a'u teuluoedd.**
- **Symud ymlaen heb oedi i sefydlu cylch gorchwyl ac amcanion clir ar gyfer y Panel Plant fydd yn weithredol o dan y weinyddiaeth newydd ym mis Mai 2017.**

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd.**

DRAFFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad :** | **10/04/2017** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gwella ar gyfer Gwasanaethau Plant** |
| **Aelod(au)Portffolio** | **Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Llŷr Bryn Roberts** |
| **Awdur yr adroddiad:**<br>**Ffôn :**<br>**E-bost :** | **Llŷr Bryn Roberts - Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Plant (Gweithrediadau**)<br>01248 752 765<br>llyrbrynroberts@YnysMon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau** |

**1.0 Cefndir**

1.1 Arolygwyd Gwasanaethau Plant Ynys Môn gan AGGCC ym mis Hydref a mis Tachwedd 2016.

**2.0 Sgôp yr Arolygiad**

2.1 Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar sut mae plant a theuluoedd yn cael eu grymuso i gael mynediad at gymorth a gwasanaethau gofal a chefnogaeth ac ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir ar gyfer plant sydd angen cymorth, gofal a chefnogaeth a / neu blant y mae angen eu hamddiffyn, gan gynnwys plant sydd, yn ddiweddar, wedi dod yn blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Roedd yr arolygiad hefyd yn gwerthuso ansawdd y trefniadau arweinyddiaeth, rheoli a llywodraethu a oedd ar waith i ddatblygu a chefnogi darparu gwasanaethau.

3.0 **Argymhellion adroddiad AGGCC**

3.1 Cyhoeddwyd adroddiad terfynol AGGCC ar 7 Mawrth 2017 ac 'roedd ynddo 14 o argymhellion:

3.2 Fel blaenoriaeth:

1. Dylai'r awdurdod fwrw ymlaen â'i ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig yn ogystal â darparu help a chymorth cynnar sy'n oedi'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth.

2. Dylid sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant amlasiantaeth effeithiol i sicrhau bod y staff a'r partneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesu gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol trothwyon diogelu plant amlasiantaeth sy'n ymgorffori'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.
3. Dylai uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu barhau i gydweithio'n rhagweithiol i sicrhau gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau diogelu plant.
4. Dylai'r cyngor barhau i gynorthwyo uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn rhoi sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf.
5. Dylid datblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu i gynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor er mwyn recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol.
6. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau capasiti digonol i ddarparu arolygiaeth gan reolwyr o benderfyniadau a herio a chyfeirio staff ar draws y gwasanaeth; dylid bod rhaglen arweinyddiaeth a datblygiad ar gael er mwyn datblygu gwytnwch.
7. Dylai uwch reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd arolygiaeth staff rheng flaen; mae'n rhaid cyflwyno dull sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd.

Yn ystod y 12 mis nesaf:

8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal.
9. Dylid sefydlu trefniadau aml-asiantaeth i atgyfnerthu cynlluniau gweithredol a fydd yn cynorthwyo cydlyniad effeithiol o waith cwblhau Fframweithiau Asesu ar y Cyd gan bartneriaid statudol.
10. Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau i sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod dealltwriaeth glir o'r canlyniadau, amserlenni a'r cyfrifoldebau am weithredoedd a ddymunir.
11. Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion; dylai pob aelod o staff a rheolwr sicrhau bod eu cofnodion o safon dda, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n systemataidd.
12. Dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu'r broses o greu cynlluniau strategol er mwyn cyflawni aliniad effeithiol darpariaeth gwasanaethau rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol.
13. Mae angen ymgorffori trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, yn cynnwys craffu ar y galw am wasanaethau ac archwilio ansawdd arfer yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol,

berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd i'w galluogi i wneud eu swyddi yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau.

14. Dylid monitro baich achosion ac adroddiadau ar ansawdd perfformiad gweithwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i alluogi'r gweithwyr i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.

3.3 Rydym wedi cynhyrchu cynllun gwella a fydd yn cael ei fonitro yn ystod rhaglen o ymgysylltu ac adolygu perfformiad trwy gydol 2017/18.

3.4 Oherwydd y pryderon sylweddol a nodwyd yn yr arolygiad bydd AGGCC yn ystyried cynnal arolygiad pellach o Wasanaethau Plant Ynys Môn cyn pen 12 - 18 mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad.

## 4.0 Y cynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Gwella Gwasanaeth

| | **Gweithred** | **Cwblhawyd** | **Diwedd** |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Datblygu Strategaeth Gweithlu<br>Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori yn y Gynhadledd Staff ar 27.3.17. Gofynnwyd am farn y staff am:<br>• Recriwtio - beth yw ein ffactorau allweddol sy'n ein galluogi i ddenu staff; beth sydd angen i ni ei wneud i wella / bod yn fwy llwyddiannus<br>• Cefnogi Arferion a Chyflawniad Effeithiol - beth ydyn ni'n ei wneud yn dda; beth sydd angen i ni ei wneud i wella / beth sydd angen i ni ei wneud yn well<br>• Cadw staff - beth yw'r pethau sy'n gwneud i bobl eisiau aros; beth fyddai'n gwneud staff eisiau aros yn hirach<br><br>Bydd y wybodaeth hon yn helpu gyda chwblhau'r ddogfen Strategaeth Gweithlu. | 1. Drafftiwyd Papur Strategaeth Gweithlu.<br>2. Cafwyd sesiwn yn rhoi arweiniad ar faterion Cynefino ar gyfer Rheolwyr ym mis Mawrth.<br>3. Sesiwn Gynefino Gorfforaethol ar gael yn fisol i staff newydd. | Ar darged Mehefin 2017 |
| 2.1<br><br>4.1<br><br>3.5 | <u>Gwella ansawdd ymarfer mewn perthynas ag amddiffyn plant, asesu ac ymyrraeth gyda phlant a theuluoedd a sicrhau bod ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn cyd-blethu â'r ffordd wahanol o weithio gyda theuluoedd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd (2014).</u><br><br>• Bydd yr holl staff yn mynychu hyfforddiant amddiffyn plant gorfodol yn ystod y misoedd nesaf.<br>• Bydd y Model Risg yn cael ei ail-lansio ym mis Mai<br>• Ym mis Ebrill rhoddir hyfforddiant ar dempledi newydd y Setiau Data Craidd, y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', Asesu Anghenion Gofal a Chefnogaeth a Chynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | 1. Rhoddwyd hyfforddiant ar Newid Diwylliant a Mesur Perfformiad yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ym mis Mawrth.<br>2. Rhoddwyd hyfforddiant ar Gyfathrebu / Sgyrsiau sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau ym mis Mawrth. | Ar darged Mawrth 2018 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Rhoddir hyfforddiant ym mis Medi ar sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd<br>• Rhoddir hyfforddiant ar gadw cofnodion ym mis Mai.<br><br>Mae Atodiad 1 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y cynllun hyfforddi.<br><br>Archwilir ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chefnogaeth dros y misoedd nesaf. | | |
| 4.2 | Ailfodelu strwythur y gwasanaeth - y cymhelliant y tu ôl i'r newidiadau yw: -<br>• Ceisio gwella sut mae staff yn cael eu cefnogi a'u galluogi i ymarfer.<br>• Rhoi gwasanaethau i deuluoedd bregus ar yr adegau pan fônt eu hangen ac ar lefel a all fynd i'r afael yn briodol â'u hanghenion.<br>• Cwrdd yn dda â'r gofynion o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y ddeddfwriaeth newydd.<br><br>Nid dim ond y newidiadau strwythurol sy'n rhoi sylw i'r materion hyn. Gobeithir eu bod yn mynd rhywfaint o'r ffordd i ddarparu cyd-destun ar gyfer staff i deimlo bod ganddynt y gefnogaeth y maent ei hangen i wneud eu gwaith. Bydd hefyd yn ein helpu i gyflawni'r rhaglen a nodwyd yn ein hunanwerthusiad, ac a gefnogwyd gan AGGCC yn eu hadroddiad diweddar h.y. cryfhau gwasanaethau ataliol a'u cysylltiad â gwasanaethau statudol; sicrhau goruchwyliaeth gyda ffocws proffesiynol; a sicrhau bod gennym brosesau cadarn i sicrhau ansawdd yr ymarfer.<br><br>Rydym nawr yn ceisio recriwtio i'r swyddi a grëwyd ac mae gennym amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu - Atodiad 2 | Ymgynghorwyd gyda'r staff. Y camau nesaf yw gweithredu'r strwythur newydd - Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys. | Ar darged Mehefin 2017 |
| 1.3 | Adolygu ac ail-lansio'r polisi Goruchwylio<br>Rhoddir hyfforddiant goruchwyliaeth i'r holl staff a Rheolwyr erbyn diwedd Mehefin a hyfforddiant ar Reoli Sgyrsiau Anodd ar gyfer Rheolwyr ym mis Ebrill.<br>Mae disgwyliad clir ar Reolwyr i gydymffurfio â'r polisi newydd. | Adolygwyd y Polisi Goruchwyliaeth ac fe'i hail-lansiwyd yn y gynhadledd staff ar 27.3.17 | Cwblhawyd |
| 4.3 | Gweithredu Hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn y Gwasanaethau Plant.<br><br>Bydd yr Hyb yn cychwyn ar 10 Ebrill a chylchredwyd taflen wybodaeth i weithwyr proffesiynol I godi ymwybyddiaeth. | 1. Cynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth ledled yr Awdurdod ar 28 a 29 Mawrth.<br>2. Cynlluniwyd i gynnal Sesiynau Cymunedol ar gyfer pan fydd Uwch | Ar darged April 2017 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Reolwr a Rheolwr Gwasanaeth wedi dechrau yn eu swyddi<br>3. Swydd Rheolwr IAA<br>4. Disgrifiadau Swydd ar gyfer swyddi IAA yn cael eu drafftio o ar hyn o bryd<br>5. Llawlyfr staff ar gyfer Teulu Môn ar fin cael ei gwblhau a fydd yn cynnwys yr holl bolisïau / templedau etc. (mae'r elfennau a gwblhawyd yn cael eu cyfieithu ar hyn o bryd), yr elfennau anghyflawn yw'r rheini sy'n aros am Ddisgrifiadau Swydd ac ati<br>6. Bwrdd wedi cymeradwyo'r Protocol Rhannu Gwybodaeth | |
| 1.3 | <u>Datrys materion staffio - Atodiad 2</u><br>Cyfweliadau wedi'u cynnal i lenwi swyddi gwaith cymdeithasol sy'n wag.<br>Contractau staff asiantaeth wedi cael eu hymestyn tan ddiwedd mis Mehefin er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth wedi ei staffio'n llawn | | Ar darged Medi 2017 |
| 2.2 | <u>Bydd y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu</u> yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau o ran :<br>1. ansawdd,<br>2. cysondeb ac<br>3. Amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant<br><br>Trefnwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Heddlu i ganolbwyntio ar y gwelliannau angenrheidiol. | | Ar darged Hydref 2017 |
| 2.3<br><br><br><br><br>3.4 | <u>Sefydlu trefniadau amlasiantaeth i gryfhau cynlluniau gweithredol i sicrhau bod y gwaith o gwblhau Fframweithiau Asesu ar y Cyd gan bartneriaid statudol wedi ei gydlynu'n effeithiol.</u><br><br><u>Sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod staff yn deall y trothwyon asesu ar gyfer gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson.</u><br><br>Grŵp Cyflawni Lleol Diogelu wedi cytuno ar 16.2.17 y dylid cynnal cyfarfod amlasiantaeth Môn a Gwynedd i drafod y trefniadau gwaith a'r anawsterau cyfredol a dod â nhw i sylw'r Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer Diogelu Plant. Cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 4.5.17.<br><br>Trefnwyd cyfarfodydd rheolaidd gydag Iechyd ac Addysg i ddatblygu Canllawiau Ymarfer mewn perthynas â threfniadau gweithredol - trothwyon atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu | | Ar darged Hydref 2017 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | | |
| 3.1 | Adolygu'r holl blant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod ganddynt gynlluniau gofal a chymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau er mwyn i sicrhau sefydlogrwydd.<br><br>Adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a rhoddir gwybodaeth i'r Panel Sgriwtini Plant nesaf. | | Ar darged |
| 4.4 | Datblygu Strategaeth Ataliol Gorfforaethol; rhaid i'r ALl ddarparu ystod a lefel o wasanaethau ataliol ar draws Gwasanaethau Plant ac Oedolion<br><br>Sefydlwyd grŵp a gadeirir gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol ac mae adroddiad cychwynnol yn cael ei ddrafftio gan yr Uwch Reolwr Partneriaeth ar y gwaith y mae angen ei wneud. | | Ar darged Hydref 2017 |

## 5.0 Casgliad

5.1 Mae'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn mynd rhagddo'n dda ond mae angen gwreiddio gwelliannau mewn llawer o feysydd. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar nifer o feysydd allweddol. Bydd y gwaith o fonitro cynnydd a gweithrediad y Cynllun Gwella Gwasanaeth yn digwydd drwy gyfarfodydd Gwasanaeth misol dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr Cynorthwyol. Cwblheir siart Gantt lefel uchel a bydd pob un o'r swyddogion sy'n arwain yn cwblhau adroddiad amlygu ar gyfer pob cyfarfod misol ar y gwaith a wneir i ymateb i'r Cynllun.

5.2 Cynhelir cyfarfodydd misol gydag AGGCC a datblygwyd amserlen monitro ddrafft (Atodiad 3).

## Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu Hyfforddiant – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant

| Pwynt Gweithredu | Hyfforddiant | Amserlen | Grŵp Targed | Hyfforddwr |
|---|---|---|---|---|
| 1.2 | **Hyfforddiant Goruchwyliaeth** | Mai/Mehefin | Rheolwyr Tîm | Neil Thompson |
| 1.4 | **Trothwyon a Gwneud Penderfyniadau – Yn cynnwys gwneud penderfyniadau cywir mewn perthynas â rheoli achosion.** | Mehefin/Gorffennaf | Rheolwyr Tîm | Bruce Thornton |
| | **Rheoli sgyrsiau anodd** | Ebrill/Mai | Rheolwyr Tîm | David Jones - ACAS |
| 2.1 | **Diogelu – Sylfaenol / Cyffredinol** | Rhaglen dreigl | Holl staff | Y Bont |
| | **Model risg – gwella dadansoddiad o risg** | Mai/Mehefin | Rheolwyr Tîm / Gweithwyr Cymdeithasol / Tîm Teuluoedd Gwydn | Bruce Thornton |
| | **Templedi rhanbarthol – Yn cynnwys Asesiad, Beth sy'n bwysig, 5 maes asesu, cynlluniau Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.** | Ebrill | Rheolwyr Tîm / Gweithwyr Cymdeithasol | Vicky Allen |
| | **Sefydlu a chynnal perthnasau o safon uchel â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.** | Medi | Rheolwyr Tîm / Gweithwyr Cymdeithasol / Tîm Teuluoedd Gwydn | I'w gadarnhau |
| 3.3 | **Darparu hyfforddiant i staff Gwasanaethau Plant a phartneriaid ar drothwyon ar gyfer asesu.** | I'w gadarnhau | Aml-asiantaeth | Gwasanaethau Plant |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.4 | **Cadw cofnodion** | Mai/Mehefin | Holl staff | Bruce Thornton |
| 4.1 | **Sgiliau Cyfweld Ysgogol** | Mai/Mehefin | Arweinwyr Tîm / Gweithwyr Cymdeithasol | Simon Herbert |
| | **Cyfathrebu ar y cyd / Sgyrsiau yn seiliedig ar ganlyniadau** | Mawrth | Arweinwyr Tîm / Gweithwyr Cymdeithasol | Jon Ralphs - NDTI |
| | **Hyfforddiant Teuluoedd Gwydn IFSS (yn cynnwys Therapi byr sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a Chyfweld Ysgogol)** | Mai | Aml-asiantaeth | Llyr ap Rhisiart, IFSS |
| | **Newid Diwylliant a Mesur Perfformiad yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** | Mawrth | Rheolwyr ac Uwch Ymarferwyr | Vicky Allen |
| 4.3 | **Hyfforddiant Tîm IAA Team** | I'w gadarnhau | Tîm IAA | I'w gadarnhau |
| 5.2 | **Hyfforddiant Tîm Teuluoedd Gwydn** | I'w gadarnhau | Tîm Teuluoedd Gwydn | I'w gadarnhau |

**Atodiad 3**

**<u>Drafft o Ymgysylltiad Gwasanaethau Plant Ynys Môn</u>** – yn dilyn adroddiad arolygu a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, 2017

**Cyd-destun**

Ar 31 Ionawr, 2017 cytunodd David Francis, Prif Arolygydd Cynorthwyol â Swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod Lleol y byddai Marc Roberts yn cyfarfod â chynrychiolwyr y Cyngor yn fisol er mwyn monitor cynnydd eich cynllun gweithredu a allai gynnwys goruchwylio unrhyw weithgareddau sicrwydd. Bydd CSSIW yn ymgymryd ag arolwg llawn pellach mewn tua deuddeg mis.

Cytunodd Caroline Turner a Vicky Poole RD CSSIW i Marc gyfarfod â Llyr (a Leighton fel bo'n briodol) ac i'r posibilrwydd o gynnal adolygiad chwarterol gyda'r cyfarwyddwyr hyn.

Awgrymir ein bod yn defnyddio'r cyfarfodydd i fonitro'r meysydd canlynol o'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant (CGGP).

| Dyddiadau arfaethedig y cyfarfodydd | Agenda arfaethedig |
|---|---|
| Wythnos yn dechrau 3 Ebrill | **Gweithlu**<br>Strategaeth Gweithlu **-** (CGGP 1.1)<br>Strwythur Gwasanaeth Newydd - (CGGP 4.2)<br>**Adolygu Gweithredoedd yn y Cynllun Gwella** |
| Wythnos yn dechrau 8 Mai | **Darparu Gwelliant**<br>Gwelliant yn yr ansawdd ymarfer (CGGP 2:1) barn Pennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â:<br>• gwelliannau amlwg yn y canlyniadau ar gyfer plant<br>• gwelliannau amlwg mewn 'atal' a 'chefnogi' mwy o blant i aros adref.<br>• cadarnhau gwelliannau yn yr ansawdd o ymarfer, asesu risg a chadw cofnodion.<br>• defnydd o dempledi rhanbarthol<br>• ansawdd a chysondeb cofnodion a gedwir<br><br>Adroddiadau prif bwyntiau misol ar ansawdd perfformiad gweithwyr er mwyn sicrhau capasiti - (CGGP 3.2)<br>**Adolygu Gweithredoedd yn y Cynllun Gwella** |
| Wythnos yn dechrau 19 Mehefin | **Sicrwydd Ansawdd** |

| | |
|---|---|
| | Monitro Goruchwyliaeth – (CGGP 1.3<br>Archwilio adroddiad Goruchwyliaeth)<br>Archwiliadau a ymgymerwyd â nhw yn cadarnhau gwelliannau (CGGP 2.1)<br>Gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseru ymholiadau amddiffyn plant.<br>Adroddiadau a threfniadau Sicrwydd Ansawdd Aml-asiantaeth (CGGP 3.4)<br>**Adolygu'r Gweithredoedd yn y cynllun gwella** |
| Wythnos yn dechrau 7 Awst | **Cefnogi'r gwelliant**<br>Arweiniad Ymarfer i gael ei ddatblygu rhwng Gwasanaethau Plant a phartneriaid (CGGP 2.3)<br>Strategaeth Atal Corfforaethol (CGGP 4.4) (Gyda Leighton Rees o bosib)<br>Gwelliannau Rhiant Corfforaethol) (CGGP 5.3)<br>Protocol DSS (CGGP 6.1_<br>**Adolygu'r Gweithredoedd yn y Cynllun Gwella** |

Bydd unrhyw ran a chwaraeir mewn goruchwylio unrhyw weithgareddau sicrwydd ansawdd yn cael eu hadnabod gan yr awdurdod lleol a bydd trefniadau'n cael eu cytuno arnynt.

Fe ddylai'r trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd, unrhyw weithgareddau sicrwydd ac adolygiad chwarterol posibl gan y cyfarwyddwyr gael eu cytuno arnynt yn y Cyfarfod Adolygu Perfformiad ar 24 Mawrth, 2017.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **10 Ebrill, 2017** |
| **PWNC :** | **Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **AELODAU PORTFFOLIO( AU):** | **Cyng Hywel Eifion Jones** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **Marc Jones, Pennaeth Adnoddau/Swyddog A151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |

## 1. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

**A1** **Nodi'r cynnydd wnaed hyd yma wrth sefydlu trefniadau craffu cadarn ar gyfer materion cyllidol**

**A2** **Ffurfio barn ar sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y panel cyllid newydd**

**A3** **Nodi mai'r cam nesaf fydd cwblhau'r trefniadau ymarferol i sefydlu'r panel cyllid ar ôl yr Etholiad gan y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Adnoddau / Swyddog A151**

## 2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN LLEOL

2.1 Mae cyllid yn holl bwysig i'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a gwelir oblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol – o ran y gwasanaethau mae'r cyhoedd yn eu derbyn a'r Dreth Gyngor neu'r taliadau a'r ffioedd y maent yn eu talu[1]. Wedi iddi fynd yn anoddach canfod yr arbedion sydd eu hangen drwy wneud arbedion effeithlonrwydd, bydd rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth fanwl i'r dewisiadau sydd ganddom. Bydd hyn hefyd yn golygu parhau i ofyn cwestiynau heriol ynglŷn â pha wasanaethau i'w cynnig yn y dyfodol ac i ba raddau mae dulliau presennol o gyflenwi gwasanaethau yn parhau i fod yn addas. Ystyriaeth arall yw beth fyddai'r ffordd orau o reoli disgwyliadau (yn fewnol ac yn allanol) wrth wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol.

[1] Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)

## 3. SGRIWTINI ARIANNOL

3.1 Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy'n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

*"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol…"*[2]

*"Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth?"* yw'r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a "sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol?" Yn y cyd-destun hwn, mae angen rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn:

- Y broses o osod y gyllideb ynddi'i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg y gofynion sy'n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

3.2 Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth i benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol.

## 4. EIN TREFNIADAU LLEOL

4.1 Mae'r trefniadau craffu ar y broses flynyddol o sefydlu cyllideb y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu dros y 2 flynedd diwethaf gan osod y sylfeini ar gyfer dull gwell, mwy strategol a seiliedig ar ganlyniadau ac arfer da.

4.2 Mae'n gam naturiol felly sefydlu is-grŵp plant fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau'r buddion a ganlyn:

- Datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol

---

[2] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014

- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda’r arbenigedd a’r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.3 Mae’r papur sgopio ynghlwm (**ATODIAD A**) yn manylu ar sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel.

5. **FFORDD YMLAEN**

Y cam nesaf fydd cwblhau’r trefniadau ymarferol i sefydlu’r panel cyllid ar ôl yr Etholiad, gan y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda’r Pennaeth Adnoddau/Swyddog A151.

| **ATODIAD** |
| --- |
| ATODIAD A: Papur Sgopio Panel Sgriwtini Cyllid |

Awdur: Anwen Davies
Teitl Swydd: Rheolwr Sgriwtini Dros Dro
Dyddiad: 30/03/17

**ATODIAD A**

**PANEL SGRIWTINI - CYLLID**

## Sgriwtini Ariannol

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy'n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

*"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol..."*[1]

*"Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth?"* yw'r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a "sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol?" Yn y cyd-destun hwn, mae angen rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn:

- Y broses o osod y gyllideb ynddi'i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg y gofynion sy'n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. O'r herwydd, mae Sgriwtini effeithiol yn gallu:

- Cynnig her effeithiol
- Dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## Ein Trefniadau Lleol

Mae'r trefniadau craffu ar y broses flynyddol o sefydlu cyllideb y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu dros y 2 flynedd diwethaf gan osod y sylfeini ar gyfer dull gwell, mwy strategol a seiliedig ar ganlyniadau ac arfer da. Yn wir, gwelwyd y broses yn caniatau dilyn trywydd mwy systematig o ran sgriwtini ariannol, sy'n elfen hanfodol o reolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

'Roedd y gwaith craffu gan banel sgriwtini ar wireddu arbedion effeithlonrwydd 2014/15 a 2015/16 hefyd yn ddatblygiad cadarnhaol yn ein trefniadau craffu ariannol, drwy:

- Ddatblygu model yn ffocysu ar grwp llai
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

Mae ein gwaith craffu ariannol bellach yn dechrau amlygu fel model posibl o arfer da.

Mae'n **gam naturiol** felly sefydlu is-grŵp cyllid fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau'r buddion a ganlyn:

i. Datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

[1] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014. Hefyd, Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Graffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)

ii. Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
iii. Rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol
iv. Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**Sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel**

<table>
<tr><th>Pwnc</th><th>Rhaglen Waith</th><th>Amserlen</th></tr>
<tr><td>Amwytho</td><td>Amwytho aelodau'r Panel</td><td>Mehefin</td></tr>
<tr><td>Monitro Chwarterol y Gwariant Refeniw a Chyfalaf</td><td>Craffu gwariant yn erbyn proffîl cyllidebau</td><td>Chwarterol</td></tr>
<tr><td rowspan="6">Cyllideb y flwyddyn i ddod</td><td>Rhannu gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol</td><td>Mehefin</td></tr>
<tr><td>Cyllideb ddrafft – proses y setliad ariannol a sut mae'n gweithio</td><td>Haf</td></tr>
<tr><td>Trosolwg o sefyllfa'r arbedion</td><td rowspan="4">Yr Hydref</td></tr>
<tr><td>Craffu risgiau'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig</td></tr>
<tr><td>Craffu pa mor gyraeddadwy ydy'r cynigion</td></tr>
<tr><td>Craffu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn ddilynol</td></tr>
<tr><td>Cynllun Cyllidol Tymor Canol</td><td>Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau</td><td>Haf</td></tr>
<tr><td>Rheoli Dyledion</td><td>Craffu perfformiad rheolaeth dyledion (cynnwys graddfeydd casglu)</td><td>I'w gadarnhau (dibynnol ar argaeledd gwybodaeth wedi'i pharatoi'n rhanbarthol)</td></tr>
<tr><td>Polisi Rhyddhad Treth Busnes</td><td>Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau</td><td>I'w gadarnhau (darn o waith mewn un cyfarfod yn unig)</td></tr>
<tr><td>Cynllun Busnes HRA</td><td>Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau</td><td>Ionawr</td></tr>
<tr><td>Balansau'r Cyngor ac arian wrth gefn</td><td>Cwestiynu a chraffu</td><td>Amserlen i'w chadarnhau gan y Panel</td></tr>
</table>

**Aelodaeth y Panel**
Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- **Aelodau Etholedig** – 2 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
- **Swyddogion** – Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Gwasaneth Refeniw a Budd-daliadau, Rheolwr Sgriwtini

Mae'n bosib bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

**Cadeirio**
Bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio yn y cyfarfod cyntaf.

**Amlder Cyfarfodydd a Chworwm**

1. **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i ystyried yr amrediad o faterion cyllidol sydd wedi'u crynhoi yn y tabl uchod. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni prosesau cyllidol y Cyngor (rhagwelir oddeutu 6-8 cyfarfod/ blwyddyn)

2. **Cworwm –** ni fydd yn berthnasol i'r panel.

**Cofnodi cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

1. Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

2. **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **10 Ebrill, 2017** |
| **PWNC :** | **Panel Sgriwtini Plant** |
| **AELODAU PORTFFOLIO( AU):** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes)**<br>**Llŷr Bryn Roberts, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant (Gweithredoedd)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |

## 1. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

**A1** **Nodi'r cynnydd wnaed hyd yma wrth sefydlu trefniadau craffu cadarn ar gyfer y gwasanaethau plant**

**A2** **Ffurfio barn ar sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y panel plant newydd**

**A3** **Nodi mai'r cam nesaf fydd cwblhau'r trefniadau ymarferol i sefydlu'r panel plant ar ôl yr Etholiad gan y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes).**

## 2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN LLEOL

2.1 Bu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol sefydlu panel aelodau trawsbleidiol[1] blwyddyn yn ôl gyda'r amcan o rannu gwybodaeth am ofynion y ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd[2] a hefyd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynllun gwella plant cyntaf. Mae ganddom bellach dîm

---

[1] Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd y Gwrthblaid, Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Deilydd Portffolio Cysgodol Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Deilydd Porffolio Dysgu, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

[2] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

bychain o Aelodau Etholedig sy'n datblygu lefel o arbenigedd yn y maes a hefyd perchnogaeth o'r prif faterion allweddol a'r blaenoriaethau datblygu.

2.2 Yn ddiweddar bu i'r panel ffocysu ei waith ar faterion yn ymwneud â'r gwasanaethau plant yn rhannol yn sgîl arolwg thematig gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)[3] o wasanaethau plant yr Awdurdod, yn ystod Tachwedd, 2016.

## 3. SGRIWTINI O'R GWASANAETHAU PLANT

3.1 Mae cadw plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn ddiogel yn rôl hanfodol bwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Cyngor a phartneriaid weithio'n effeithiol efo'i gilydd. Cafwyd sylw cyhoeddus sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd enghreifftiau proffil uchel lle mae'r system wedi methu unigolion bregus, gyda chanlyniadau trychinebus.

3.2 Wrth adrodd ar ganlyniadau arolwg gwael, mae'r Arolygaethau[4] yn y maes gofal yn aml yn dyfynnu arfer craffu gwael ochr yn ochr efo methiannau yn agweddau eraill y system drwyddi draw. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r polisïau a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i warchod plant a phobl ifanc bregus felly'n elfen allweddol o rôl arweinyddol yr aelodau Sgriwtini.

## 4. AROLWG YR AGGCC

4.1 Gwnaed 14 o argymhellion gan yr Arolygaeth Gofal yn sgîl ei harolwg diweddar ac 'roedd un o'r argymhellion rheiny'n ymwneud yn benodol â chefnogaeth wleidyddol i'r gwasanaethau plant, sef:

**"…. 8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal."**

## 5. EIN TREFNIADAU LLEOL

5.1 Y **c**am nesaf yn ein gwaith felly fydd datblygu ymhellach ar y gwaith yma drwy drosi'r panel trawsbleidiol cyfredol i fod yn banel sgriwtini plant sefydlog ac yn is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, gyda'r elfennau canlynol:

- Datblygu model o weithio yn y maes plant sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

---

[3] Adroddiad Arolygu Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (Mawrth, 2017)

[4] Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Care Quality Commission (Lloegr)

- Cryfhau gallu'r Aelodau i herio perfformiad drwy wella gwybodaeth am ansawdd y gwasanaethau a phrofiadau plant a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth a / neu wasanaethau
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau y Gwasanaeth, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau yn ymwneud â materion plant a phobl ifanc yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Cynnig cefnogaeth i'r Pencampwr Pobl Ifanc.

**5.2 Disgwyliadau'r Arolygaeth Gofal**

Mae adroddiad yr arolwg diweddar gan yr Arolygaeth Gofal yn datgan yn glir y disgwyliadau o ran arweinyddiaeth wleidyddol:

**"Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol."**

5.3 Mae'r papur sgopio ynghlwm (**ATODIAD A**) yn manylu ar sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel.

6. **FFORDD YMLAEN**

Y cam nesaf fydd cwblhau'r trefniadau ymarferol i sefydlu'r panel plant ar ôl yr Etholiad, gan y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes).

| **ATODIAD** |
| --- |
| ATODIAD A: Papur Sgopio Panel Sgriwtini Plant |

Awdur: Anwen Davies
Teitl Swydd: Rheolwr Sgriwtini Dros Dro
Dyddiad: 30/03/17

**ATODIAD A**

**PANEL SGRIWTINI – PLANT**

**Sgriwtini o'r Gwasanaethau Plant**
Mae cadw plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn ddiogel yn rôl hanfodol bwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Cyngor a phartneriaid weithio'n effeithiol efo'i gilydd. Cafwyd sylw cyhoeddus sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd enghreifftiau proffil uchel lle mae'r system wedi methu unigolion bregus, gyda chanlyniadau trychinebus.

Wrth adrodd ar ganlyniadau arolwg gwael, mae'r Arolygaethau[1] yn y maes gofal yn aml yn dyfynnu arfer craffu gwael ochr yn ochr efo methiannau yn agweddau eraill y system drwyddi draw. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r polisïau a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i warchod plant a phobl ifanc bregus felly'n elfen allweddol o rôl arweinyddol yr aelodau Sgriwtini.

**Ein Trefniadau Lleol**
Mae'r trefniadau hyd yma o gwmpas y panel trawsbleidiol wedi'n galluogi i feithrin nifer o egwyddorion pwysig fydd yn sylfaen gref wrth symud ymlaen i ddatblygu model craffu ar gyfer y gwasanaethau plant:

- Datblygu model yn ffocysu ar grŵp llai o aelodau
- Aelodau'n datblygu gwell ddealltwriaeth o'r maes plant
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

Gwnaed 14 o argymhellion gan yr Arolygaeth Gofal yn sgîl ei harolwg diweddar ac 'roedd un o'r argymhellion rheiny'n ymwneud yn benodol â chefnogaeth wleidyddol i'r gwasanaethau plant, sef:

**"…. 8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal."**

Mae'n **gam naturiol** felly sefydlu is-grŵp plant fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau'r buddion a ganlyn:

i. Datblygu model o weithio yn y maes plant sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
ii. Cryfhau gallu'r Aelodau i herio perfformiad drwy wella gwybodaeth am ansawdd y gwasanaethau a phrofiadau plant a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth a / neu wasanaethau
iii. Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau y Gwasanaeth, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

[1] Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Care Quality Commission (Lloegr)

iv. Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau yn ymwneud â materion plant a phobl ifanc yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
v. Cynnig cefnogaeth i'r Pencampwr Pobl Ifanc

**Sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel**

| **Yr hyn mae'r Arolygaeth Gofal yn disgwyl ei weld o ran arweinyddiaeth wleidyddol:** |
|---|
| "Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol." |

Prif rôl y panel plant fydd:

1. Monitro a chraffu mewn ffordd ystyrlon a chadarn ar:

   - gynnydd a'r pellter a deithiwyd yn erbyn y cynllun gwella gwasanaeth a gyhoeddwyd mewn ymateb i arolwg diweddar yr AGGCC
   - berfformiad meintiol ac ansoddol y gwasanaethau plant. Hyn i gynnwys datblygu sgorfwrdd penodol i'r maes plant

   Sylw arbennig i fonitro agweddau ansoddol y gwasanaeth a phrofiadau unigolion sy'n derbyn cefnogaeth a gwasanaethau.

2. Sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed wrth ystyried effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau

3. Cynnig sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar yr elfennau canlynol:

   - cynnydd digonol, amserol wrth wireddu'r cynllun gwella
   - perfformiad meintiol ac ansoddol y gefnogaeth a'r gwasanaethau gofal ar gael i blant a phobl ifanc.

**Aelodaeth y Panel**
Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- Aelodau Etholedig – bydd cynnal elfen o barhad yn yr aelodaeth yn bwysig. Fel man cychwyn, cynigir 2 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini a'r Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Deilydd Cysgodol gydag Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid
- Swyddogion – Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Rheolwr Sgriwtini.

Mae'n bosib bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

**Cadeirio**
Bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio yn y cyfarfod cyntaf.

**Amlder Cyfarfodydd a Chworwm**

1. **Amlder cyfarfodydd** – sefydlu fel panel sefydlog ac felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni cyflwyno adroddiadau monitro gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

2. **Cworwm** – ni fydd yn berthnasol i'r panel.

**Cofnodi cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

1. Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

2. **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL 2017-2018

Cadeirydd: Y Cynghorydd ?????????
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd ??????????

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o Mai 2017 at Mai 208. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini Dros Dro)
Ffôn: 01248 752578
E-bost: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk

DRAFFT CYCHWYNNOL

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **31 Mai 2017** | Ethol Cadeirydd | Ethol Cadeirydd | Siambr y Cyngor / 3.30yh |
| | Ethol Is Gadeirydd | Ethol Is Gadeirydd | |
| | | | |
| **Mehefin 2017 (Cyfarfod arbennig, i'w gadarnhau )** | Rhaglen Amlinellol Strategol Moderneiddio Ysgolion Môn band B ( 2019-2024) ( i'w gadarnhau) | Trawsnewid | I'w gadarnhau |
| | Cynllun Corfforaethol 2017-2022 (i'w gadarnhau) | Ymgynghori | |
| | | | |
| **26 Mehefin 2017** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw4 2016 -2-17 | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Diweddariad - Rhaglen Welliannau i'r Man Daliadau | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2016-2017 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Blynyddol ar Gwynion - Gwrando a Dysgu o Gwynion ( Gwasanaethau Cymdeithasol) | Monitro perfformiad | |
| | Gwasanaethau Plant-Monitro Cynllun Gwelliant a chynnydd gan Banel Plant | Monitro perfformiad | |
| | Strategaeth Tai Gwag ( i'w gadarnhau) | Datblygu Polisi | |
| | Adroddiad Cynnydd ar Bolisi Gymraeg y Cyngor | Monitro perfformiad | |
| | Moderneiddio Ysgolion –Ardal Llangerfni-Ymgynhoriad Statudol (I'w gadarnhau) | Sgriwtini cyn penderfyniad | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| | Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Ch4 2016-2017 (Panel Sgriwtini) | Monitro Cyllideb | |
| | | | |
| **4 Medi 2017** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw1 2017 -2018 | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Gwasanaethau Plant-Monitro Cynllun Gwelliant a chynnydd gan Banel Plant | Monitro perfformiad | |
| | Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru - Adroddiad Blynyddol | Monitro perfformiad | |
| | Moderneiddio Gwasanaethau Hamdden Anstatudol ( cyfnod 3 mlynedd ) | Trawsnewid | |
| | Adroddiad Blynyddol Perfformiad ( Cynllun Gwella) 2016/17 | Monitro perfformiad | |
| | Cynllun Corfforaethol 2017-2022 | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Ch1 2017-2018 (Panel Sgriwtini) | Monitro Cyllideb | |
| | | | |
| **17 Hydref 2017** | Cynigion Cyllideb 2018-2019 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Gwasanaethau Plant-Monitro Cynllun Gwelliant a chynnydd gan Banel Plant | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **13 Tachwedd 2017** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw2 2017 -2018 | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Trawsnewid | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| | Strategaeth Ddigartref ( i'w gadarnhau) | Datblygu Polisi | |
| | Gwasanaethau Plant-Monitro Cynllun Gwelliant a chynnydd gan Banel Plant | | |
| | Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Ch2 2017-2018 (Panel Sgriwtini) | Monitro Cyllideb | |
| | | | |
| **5 Chwefror 2018** | Cyllideb Drafft 2018-2019 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Cyfrif Refeniw Tai- Cynllun Refeniw ( I'w gadarnhau) | Monitro Cyllideb | |
| | Gwasanaethau Plant-Monitro Cynllun Gwelliant a chynnydd gan Banel Plant | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **12 Mawrth 2018** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw3 2017 -2018 | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Gwasanaethau Plant-Monitro Cynllun Gwelliant a chynnydd gan Banel Plant | Monitro perfformiad | |
| | Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Ch3 2017-2018 (Panel Sgriwtini) | Monitro Cyllideb | |
| | | | |
| **9 Ebrill 2018** | Gwasanaethau Plant -Monitro Cynllun Gwelliant | Monitro perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |